Adroddiad Blynyddol 2008-09

Multiple Sclerosis Society
Cymru

MS Society Cymru
Cwrt y Deml
Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9HA

Ffon: 029 2078 6676
Ffacs: 029 2078 6677
Ebost: mscymru@mssociety.org.uk
Wefan: www.mssociety.org.uk/wales

Llinell Gymorth Genedlaethol: 0808 800 8000

Mae Multiple Sclerosis Society Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon
yn elusen cofrestredig yn Lloegr a Chymru (207495) a'r Alban (SCO16433)

Adroddiad Blynyddol 2008-09

Mae MS Cymru yn parhau i fynd o nerth i nerth wrth i'r staff, aelodau'r Cyngor, aelodau canghennau a gwirfoddolwyr ddatblygu partneriaethau cadarnhaol i wella gwasanaethau, gwybodaeth a chefnogaeth ar gyfer pobl a effeithir gan MS yng Nghymru.

Yn dilyn apwyntiad Cyfarwyddwr cyntaf MS Cymru ar ddechrau 2008, mae nifer o apwyntiadau a newidiadau rôl wedi digwydd o fewn tîm y staff. Uwchraddiwyd rôl Siân Hughes o Gynorthwyydd Gweinyddol rhan amser i rôl Swyddog Prosiect ym mis Ebrill 2008. Apwyntiwyd Joseph Carter i'r swydd o Reolwr Polisi, yr Wasg ac Ymgyrchoedd ym mis Medi 2008, tra y dechreuodd Li Ang yn ei swydd o Gynorthwyydd Gweithredol ym mis Tachwedd 2008. Cymerodd Cheryl Ewen le Sue Lloyd fel Swyddog Datblygu Gwasanaethau ym Mis Ionawr 2009; dywedom ni hwyl fawr a diolch o galon i Sue ym mis Ebrill 2009 wrth iddi ymddeol ar ôl bron i naw mlynedd gyda'r Gymdeithas.

Ymddiswyddodd David Griffiths o'i rôl fel Trysorydd Cyngor MS Cymru yn ystod Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol 2008, tra y death tymor swyddfa Allan Young, Ymddiriedolwr y DU ac aelod o Gyngor MS Cymru, i ben yn 2008. Croesawyd Marion Davies, Keith Rollinson a Mark Williams fel aelodau newydd o'r Cyngor yn 2008, ac etholwyd Paul Pavia i wasanaethu ar Fwrdd o Ymddiriedolwyr y DU.

Cynhaliwyd cyfarfodydd o Gyngor MS Cymru trwy gydol 2008 mewn lleoliadau ledled Cymru, gan gynnwys Wrecsam, Caerdydd, Abertawe, Llandrindod a Llandudno. Dosbarthwyd cofnodion y cyfarfodydd hyn at bob cangen yng Nghymru.

Bydd aelodau yn ymwybodol na ddigwyddodd y symud swyddfa yn ôl y bwriad. Y rheswm am hyn oedd oherwydd fod problemau'n codi wrth gytuno amodau'r les a chost cynyddol yr adfeiliadau – gwaith a oedd yn angenrheidiol er mwyn gwneud y swyddfa'n addas ar gyfer ei phwrpas. Mae'r penderfyniad wedi cael ei wneud i aros yng Nghwrt y Deml am y tro a byddwn yn adolygu hyn yn hwyrach yn 2009. Yn yr hinsawdd economaidd presennol mae MS Cymru yn ymwybodol o beidio â defnyddio adnoddau yn ddiangen, ac i ddefnyddio incwm i wella gwasanaethau a chefnogaeth ar gyfer pobl a effeithir gan MS yng Nghymru.

'Rydym wedi gwneud rhai newidiadau pwysig i'n systemau TG. Mae hyn yn cynnwys treialu 'rhith-fwrdd gwaith' sy'n cynnwys mynediad i rai cymwysiadau allweddol, fel Raiser's Edge.

Bydd hyn yn gwella rheolaeth codi arian yn sylweddol. 'Rydym hefyd wedi gweithio gyda'n Hadran Gyllid i gynhyrchu codau cyllid newydd sy'n golygu ein bod yn gallu cynhyrchu adroddiadau ariannol mwy cynhwysfawr a defnyddiol. Mae prosiect mewnrwyd y Gymdeithas hefyd wedi helpu gwella cyfathrebu mewnol ardraws y sefydliad.

Mae MS Cymru'n parhau i ddatblygu cysylltiadau a phartneriaethau defnyddiol â phobl allweddol a sefydliadau yng Nghymru. Mae'n proffil gyda'r Cynulliad Cenedlaethol ac o fewn y cyfryngau yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol trwy'r flwyddyn, gyda nifer o erthyglau yn ymddangos yn eang ardraws yr wasg a chyfweliadau ar radio a theledu cenedlaethol. 'Rydym wedi datblygu banc o astudiaethau achos yng Nghymru y gellir eu defnyddio ar nifer o faterion perthnasol – 'rydym yn ddiolchgar iawn i'n haelodau i gyd sydd wedi cytuno cynrychioli'r Gymdeithas a phobl a effeithir gan MS yn y modd hwn.

Mae MS Cymru wedi cymryd prif rôl yn Nghynghrair Niwrolegol Cymru, gydag etholiad Judi Rhys fel Cadeirydd, ac etholiad Joseph Carter i'r Pwyllgor Gwaith. 'Rydym yn parhau i wneud cyfraniad gweithredol at Gynghrair Gofalwyr Cymru a grwp cynllunio Disability Pride, ac 'rydym wedi cynnal cyfarfodydd â nifer o Aelodau Cynulliad Allweddol i'w briffio ar y materion sy'n effeithio ar bobl ag MS ac i lobïo ar eich rhan.

Mae MS Cymru wedi bod yn hanfodol yn sefydlu a gwasanaethu'r Grwp Trawsbleidiol ar gyfer Niwrowyddorau a, thrwy Gynghrair Niwrolegol Cymru, 'rydym yn cael ein cynrychioli ar y Byrddau Gweithredu a'r ffrwd waith ar gyfer Adolygiad Niwrowyddonol gogledd a chanol/de Cymru. 'Rydym wedi ymgyrchu ar faterion o restrau aros ar gyfer cadeiriau olwyn i fynediad anabl i drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'n brwydr i wella gwasanaethau ar gyfer pobl ag MS yn ardaloedd mwy gwledig Cymru yn parhau yn ddibaid. 'Rydym wedi ymateb i nifer o ddogfennau ymgynghori pwysig, ac wedi annog ein haelodaeth i gyfrannu eu safbwyntiau ar faterion fel Talu am Ofal, ad-drefnu'r GIG yng Nghymru ac adolygiad Comisiwn Iechyd Cymru.

Trwy gydol 2008, cymerodd MS Cymru ran mewn nifer o ddigwyddiadau, gan gynnwys MS Life y DU-eang, a gynhaliwyd ym Manceinion, digwyddiad cyntaf Disability Pride y DU yng Nghaerdydd, yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yng Nghaerdydd, a'r Diwrnod Hwyl i'r Teulu yn y Trallwng, mewn partneriaeth â rhanbarth Gorllewin Canolbarth Lloegr yr MS Society. Darparwyd hyfforddiant Croeso Atom a Darparu Cefnogaeth ar gyfer gwirfoddolwyr mewn nifer o leoliadau yng Nghymru trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys digwyddiad ar y cyd â Gorllewin Canolbarth Cymru. Cynhaliwyd Diwrnodau Newydd eich Diagnosio mewn partneriaeth â thimau Arbenigol MS ardraws Cymru, ac roedd yn bosib i ni gynnig mwy o ddiwrnodau nag ym mlynyddoedd blaenorol, oherwydd yr ariannu ymddiriedolaeth 'rydym

wedi ei dderbyn yn llwyddiannus. ‘Rydym hefyd wedi darparu hyfforddiant i bobl broffesiynol gofal iechyd a chymdeithasol, er mwyn helpu cynyddu eu hymwybyddiaeth o MS. Ar gyfer 2009, ‘rydym yn cynllunio cynhadledd Esblygu Gwasanaethau a digwyddiad Byw gydag MS yng ngogledd Cymru, ar y 20fed a’r 21ain o Dachwedd yn ôl eu trefn.

‘Rydym wedi gwneud datblygiadau sylweddol gyda gwella gwefan MS Cymru, a thra bod yr wefan yn dal i gael ei datblygu, bydd y newidiadau hyd yn hyn yn amlwg i ddefnyddwyr. Er enghraifft, ‘rydym yn awr yn gallu diweddaru’n hadran newyddion a digwyddiadau yn rheolaidd, fel bod ymwelwyr i’r wefan yn ymwybodol yn gyson o’n gwaith. ‘Rydym hefyd yn hapus iawn bod gennym ein tudalen gyfraniadau arlein ein hunain. Mae MS Linc wedi’i adnewyddu, ac ‘rydym wedi cynyddu’r cylchrediad i gynnwys Aelodau Cynulliad, pobl broffesiynol gofal iechyd a chymdeithasol, yn ogystal ag elusennau perthnasol eraill.

‘Rydym yn parhau i weithio’n agos gyda’r tîm Cyhoeddiadau i gadw’n teitlau craidd yn ddiweddar ac ar gael yn y Gymraeg a’r Saesneg. Mae MS Cymru hefyd wedi cynhyrchu pecyn i’r wasg yn ystod y flwyddyn, er mwyn hysbysu’r cyfryngau yng Nghymru am ein gwaith, ac ‘rydym wedi darparu baneri cyhoeddusrwydd ar gyfer pob cangen yng Nghymru.

Cyhaliwyd cyfarfodydd ar gyfer y pedair Rhwydwaith Ardal ym mis Ebrill a Hydref 2009, ac eto ym mis Ebrill 2009. Ar hyn o bryd, mae 17 cangen yng Nghymru, ac mae’r strwythur Rhwydwaith Ardal wedi darparu fforwm defnyddiol ar gyfer cydweithio rhwng y canghennau, ac ar gyfer rhannu gwybodaeth.

Datblygwyd Prosiect Ffrind Ffôn arloesol gan staff MS Cymru yn ystod y flwyddyn, yn dilyn syniad cychwynnol a ddaeth i’r amlwg mewn Cyfarfod Rhwydwaith Ardal. Arweinir y prosiect hwn gan wirfoddolwyr, a’r nod yw rhoi pobl sydd newydd eu heffeithio gan MS yng Nghymru mewn cysylltiad â gwirfoddolwr hyfforddedig er mwyn iddo/iddi roi cefnogaeth dros y ffôn yn ôl y gofyn. Mae’r prosiect hwn wedi denu ariannu allanol, a byddwn yn darparu mwy o hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr yn hwyrach yn 2009.

Yn ystod 2008, yn dilyn cynrychiolaeth gryf gan MS Cymru a changhennau Casnewydd a Chwmbran, ‘roeddem yn gallu cadarnhau addewid gan Ymddiriedolaeth Iechyd GIG Gwent i barhau ag ariannu ail nyrs arbenigol MS. Maen nhw hefyd wedi cyflogi Therapydd Galwedigaethol arbenigol llawn amser, ac mae’r swydd hon wedi’i hariannu trwy gyfraniadau gan MS Cymru a Changen Casnewydd.

‘Rydym yn parhau i gyfranogi’n agos at y trafodaethau i gadarnhau clinig aml-ddisgyblaeth ar gyfer pobl gydag MS yng

ngogledd Powys, ac i gryfhau'r tim MS sy'n gweithredu yn Ysbyty Treforys yn Abertawe. Mae MS Cymru yn parhau i ymgyrchu ar gyfer gwasanaethau ar gyfer pobl ag MS mewn cymunedau gwledig, yn enwedig ym Mhowys, lle y mae darpariaeth yn dal i fod yn wan iawn. 'Rydym hefyd yn parhau i gefnogi'r cynghreiriau niwrolegol yng Nghymru, ac yn ddiweddar, roedd ein rôl mewn sefydlu cynghrair niwrolegol lleol yng Nghastell Nedd a Phort Talbot yn allweddol. Mae'r diwrnodau trafod niwroleg, a gynhaliwyd yng Ngogledd Cymru, fel cyd-fenter rhwng Cynghrair Niwrolegol Cymru a'r Walton Centre, wedi cael cefnogaeth arbennig o dda gan ddefnyddwyr gwasanaeth a phobl broffesiynol iechyd.

Yn dilyn apwyntiad Iestyn Evans fel Codwr Arian Cenedlaethol, 'roedd MS Cymru yn gallu gwella'r targed codi arian a osodwyd ar gyfer 2008. 'Roeddem yn llwyddiannus yn codi arian o nifer o ymddiredolaethau elusennol, ac roedd ein digwyddiadau codi arian cymunedol trwy gydol y wlad yn ardderchog, gyda chanlyniadau arbennig o ran codi arian a chyflawni amcanion personol.

Derbyniwyd anrheg etifeddiaeth o £10,000 a chyfraniad sylweddol o £10,000 gan Ifor Williams Trailers. Mae canghennau o gwmpas Cymru wedi cefnogi'r prosiect ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd a ariannir gan yr MS Society yn hael, gan gyfrannu cyfanswm o dros £10,000. Mae'r arian angenrheidiol hwn yn helpu cefnogi'r gwaith y mae MS Cymru yn ei wneud ar ran y rheiny a effeithir gan MS yng Nghymru.

Yn olaf, hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi'n gwaith mewn gymaint o ffyrdd gwahanol eleni. Ar adeg o ansicrwydd economaidd a gwleidyddol, gyda chymaint o newidiadau i'r ffordd y mae'n gwasanaethau iechyd yn cael eu strwythuro, mae'n gysur gwybod bod y gymuned MS yng Nghymru yn unedig yn ei hymdrechion i wella gwasanaethau, cefnogaeth a gwybodaeth ar gyfer pobl a effeithir gan MS. Trwy'n cyd-ymdrechion, 'rydym yn barod wedi cyflawni llawer, a gyda'ch cefnogaeth barhaus, gallwn gyflawni mwy eto. 'Rydym yn edrych ymlaen at adrodd ar a dathlu'r cyflawniadau hynny gyda chi.

Judi Rhys
Cyfarwyddwr, MS Society Cymru

Ann Hodgson
Cadeirydd, Cyngor MS Society Cymru